Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Papur Bwrdd

7fed Mai 2015

Teitl y Papur	**Strategaeth Rheoli Digwyddiadau 2015-2020**
Cyfeirnod y Papur:	**CNC B B 27.15**
Paratowyd y Papur gan:	**Rhian Jardine**: Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy, Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio **Steve Cook**: Rheolwr – Cymunedau, Risg Llifogydd a Strategaeth Rheoli Digwyddiadau, Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio **Paul Edmonds**: Uwch Gynghorydd Strategaeth Digwyddiadau, Cymunedau, Risg a Digwyddiadau Llifogydd, Cymunedau Cynaliadwy, Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

Diben y Papur:	Cyflwyno'r dull Rheoli Digwyddiadau i CNC gyflawni ymrwymiadau ein cynllun corfforaethol.
Argymhelliad:	**Cymeradwyo'r** Strategaeth Rheoli Digwyddiadau 2015-2020, y Cynllun Gweithredu cysylltiedig a'r Cynllun Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (ASG) dangosol.
A oes angen penderfyniad:	OES

Effaith: Noder – mae'n bosibl na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd:** Mae cyflawni ein rôl yn y gwaith o reoli digwyddiadau yn lleihau niwed amgylcheddol gymaint ag y bo modd ac yn helpu â rheoli adnoddau naturiol. Bydd hybu cysylltiadau dyfnach rhwng cymunedau a'u hamgylchedd yn helpu pobl i'w ddeall, ei werthfawrogi a gofalu amdano. **Effaith ar yr Economi**: Bydd lleihau amlder ac effaith digwyddiadau amgylcheddol gymaint ag y bo modd yn lleihau eu heffeithiau economaidd lleol a chenedlaethol yn sylweddol ac yn gwneud cymunedau'n fwy deniadol fel lleoedd i fyw ynddynt ac i fusnesau fuddsoddi ynddynt. **Effaith ar y Gymuned:** Mae ymgysylltu rhwng cymunedau a'u hamgylchedd yn hybu cydlyniant cymdeithasol. Byddir yn osgoi effeithiau ar iechyd corfforol a meddyliol pobl a cheir cyfleoedd i wella ansawdd bywyd. **Effaith ar Wybodaeth:** Caiff y gwaith o wireddu'r Strategaeth hon ei seilio ar dystiolaeth – gan wneud y defnydd gorau o'r data sydd ar gael a chan sicrhau y caiff ein gweithgareddau eu monitro a'u gwerthuso'n drylwyr. Bydd hefyd yn ein galluogi i dargedu ein hymgyrchoedd lleihau digwyddiadau ar y sectorau / lleoedd lle mae digwyddiadau'n fwyaf cyffredin.

Mater
1. Yn ein Cynllun Corfforaethol ymrwymasom i ymateb mewn ffordd effeithiol, wedi'i chyd-drefnu, i ddigwyddiadau a risgiau amgylcheddol ac i helpu i warchod a gwella ansawdd aer, tir, môr a dŵr trwy godi ymwybyddiaeth pobl er mwyn adeiladu cymunedau ac ecosystemau cryfach. Bydd y rhain yn arwain at weld digwyddiadau amgylcheddol llai difrifol yn llai aml, gan gynnig budd i adnoddau naturiol, pobl ac economi Cymru.
Rydym wedi adolygu ein dull o reoli digwyddiadau a sut i wneud hwn yn addas i gyflawni ein diben a'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Corfforaethol. Yr agweddau allweddol i'r Bwrdd eu hystyried yw'r canlynol:

- Mae Strategaeth Rheoli Digwyddiadau effeithiol yn hanfodol i'n gallu i baratoi ar gyfer ac ymateb i unrhyw fath o ddigwyddiad amgylcheddol. Bydd yn dylanwadu ar gymunedau, sectorau busnes a'n partneriaid rheoli digwyddiadau, gan eu cynorthwyo trwy ein rôl rheoli digwyddiadau statudol a'r cyfleoedd mae Rheoli Adnoddau Naturiol yn eu cynnig, gan gynnwys ar y tir a reolwn.

- Trwy weithredu'r Strategaeth hon mae CNC yn ymrwymo i newid cyfeiriad ar gyfer y gwaith hwn, gan ganolbwyntio ar sut y byddwn yn cynorthwyo, cefnogi a hwyluso eraill i gyflawni a gwireddu ein canlyniadau trwy rannu ein harbenigedd, cyfleusterau ac asedau. Mae hefyd yn rhoi blaenoriaeth i'n rôl wrth ddylanwadu'n strategol ar yr agendau rheoli digwyddiadau mae gennym y dylanwad mwyaf effeithiol arnynt.

- Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith digwyddiadau'n ffitio yn yr adran 'Da i Bobl' yn ein Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, mae canlyniadau digwyddiadau'n cael effeithiau pellgyrhaeddol ar draws ein holl weithgareddau a rhaglenni. Bydd cysylltiadau clir gan nodau'r Strategaeth hon a'r cynllun gweithredu cysylltiedig ar draws ein strategaethau, cynlluniau galluogi a mentrau eraill sy'n cyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol Da i'r Amgylchedd, Busnes a Gwybodaeth. Byddwn yn sicrhau y caiff y cysylltiadau hyn eu sefydlu'n gynnar yn y broses gyflawni a'u bod yn ategu ei gilydd.

Crynodeb
2. Bydd y Strategaeth hon yn cyflawni pedair prif elfen:

Fel ymatebwr statudol i ddigwyddiadau:
Sicrhau ein bod yn cyflawni ein rôl rheoli digwyddiadau mewn modd seiliedig ar risg a chyson yn genedlaethol, gan ganolbwyntio ar ble a sut y gallwn wneud y cyfraniad mwyaf posibl i atal a rheoli digwyddiadau.

Diffinio ein rôl fel ei bod yn integredig ac yn effeithiol ac yn cael ei chyfleu mewn modd a ddeellir yn glir wrth gynllunio ar gyfer ac ymateb i bob math o ddigwyddiad.

Fel corff cyhoeddus a rheolwr tir:
Bod yn gorff cyhoeddus sydd ymysg y gorau yn y diwydiant, gan hybu a defnyddio arferion gorau er mwyn sicrhau nad yw ein gweithgareddau a'r ffordd y rheolwn ein tir yn achosi unrhyw ddigwyddiadau amgylcheddol.

Fel cynghorydd dylanwadol:
Hyrwyddo tystiolaeth gref ar y cyfraniad mae amgylchedd iach, heb ei lygru'n ei wneud i les pobl, economïau lleol a'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

3. Byddwn yn monitro cynnydd yr elfennau hyn trwy'r dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (ASG). Mae ASG yn system rheoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar

ganlyniad. Mae Llywodraeth Cymru wedi ein cyfarwyddo i ddefnyddio'r dull hwn ledled ein sefydliad.

4. Mae rôl CNC fel sefydliad sy'n galluogi'n allweddol i'r Strategaeth hon – bydd hwyluso ac annog eraill a gweithio gyda'n partneriaid yn rhan ganolog o'n gwaith. Bydd helpu a dylanwadu ar bartneriaid i gyflawni lle maent yn y sefyllfa orau i wneud hynny, yn enwedig os oes ganddynt gyfrifoldeb i ymateb, ar y tir a reolwn ac oddi arno, yn cael ei wneud yn rhan greiddiol o'n gwaith.

Cefndir

5. Mae rheoli digwyddiadau'n swyddogaeth statudol bwysig sy'n dod â ni i gysylltiad â'r cyhoedd pan maent yn fwyaf agored i niwed. Dylid cydnabod nad un o'r gwasanaethau brys ydym ni a bod hwn, fel ein holl weithgareddau, yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig y gwerth gorau am arian. Mae'n bwysig, fel y nododd y bwrdd yn yr adolygiad cynllunio busnes y llynedd, i'r gweithgarwch gael ei gyflawni er mwyn sicrhau'r buddion ehangach i adnoddau naturiol Cymru. Felly mae angen canolbwyntio ar atal ac ar integreiddio ar draws yr holl gyfryngau amgylcheddol. Bydd y strategaeth hon yn gosod y cyfeiriad i'r adolygiad effeithlonrwydd sydd ar y gweill fel bod gennym wasanaeth ataliol fforddiadwy a chwbl integredig erbyn 2020. Mae hefyd yn nodi hyd a lled cylch gwaith CNC sy'n ymwneud â rheoli digwyddiadau. Mae'n cynnwys y ffordd yr ydym yn paratoi ar gyfer pob math o ddigwyddiadau amgylcheddol, eu hatal, ymateb iddynt, deploy a dysgu oddi wrthynt. Nodwch: ar hyn o bryd mae digwyddiadau ym maes Iechyd a Diogelwch yn cael eu rheoli trwy gyfrifoldebau cyfreithiol rheolwyr llinell. Bydd y Strategaeth yn darparu cydgysylltiad a chyfeiriad i'r agweddau hynny fel eu bod yn alinio â'r ffordd yr ydym yn cyflawni gwaith rheoli adnoddau naturiol ar draws y busnes. Byddwn yn gwneud hyn trwy:

- Ddarparu ymateb effeithiol a chyson i debygolrwydd a chanlyniadau digwyddiadau amgylcheddol, megis achosion o lygredd, llifogydd ac achosion o glefydau.
- Rheoli ein busnes a'r ffordd yr ydym ni ac eraill yn defnyddio'r tir a reolwn.
- Darparu cyngor i'r cyhoedd, busnesau a sefydliadau eraill ar ymagwedd resilient natural resource management approach to incidents.

6. Bydd y Strategaeth yn arwain ein hadnodd rheoli digwyddiadau fel ein bod yn cynnig gwasanaeth dylanwadol ac integredig gan ddefnyddio sgiliau a chymorth y staff a'r arbenigwyr angenrheidiol ledled y sefydliad. Caiff ein rôl ei gwreiddio yn ein gweithgareddau cyflawni creiddiol a bydd ein rôl i ddylanwadu'n fwy strategol. Mae rheoli digwyddiadau'n un o'n swyddogaethau creiddiol pwysicaf ac yn cael ei gynnal 24 awr y dydd, bob dydd o'r flwyddyn. Mae'n rôl sydd yn aml yn dod â ni i gysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd, yn arbennig ar adegau pan mae arnynt angen cymorth fwyaf. Mae ein gwaith o ran digwyddiadau'n cael ei rannu i chwe maes gwaith allweddol:

- Atal: defnyddio tystiolaeth ac achosion digwyddiadau i gyfarwyddo ein gwaith atal a chyfundrefnau rheoleiddio diogelu. Dylanwadu ar ddeddfwriaeth, polisi a gweithgareddau gweithredol gan gynnwys ein hegwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn y dyfodol i ddarparu ecosystemau cydnerth.
- Paratoi: Asesu risgiau; cyfathrebu'n glir a darparu gwybodaeth ddefnyddiol; darparu hyfforddiant ac ymarferiadau; cydnerthedd sefydliadol; gweithio gyda'n partneriaid ar gyfer cynllunio, hyfforddi ac ymarfer; darparu canllawiau a chynlluniau a chanolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol.
- Ymateb: Defnyddio pwyntiau sbarduno i'n camau gweithredu; rhybuddio a hysbysu; dilyn cynlluniau argyfwng; sicrhau cyfathrebu clir; parodrwydd sefydliadol; sicrhau bod ein cynlluniau'n hygyrch.

- Lleoli: gwaith rheoli adnoddau effeithiol a chydnerth i leoli ein staff ar draws ein sefydliad yn y man iawn ar yr adeg iawn, gyda'r strwythur cefnogi cywir.
- Ymadfer: dechrau'r gweithgareddau ymadfer a chyngor neu fesurau lliniaru priodol yn ystod y cyfnod ymateb er mwyn sicrhau y caiff yr holl ganlyniadau eu rheoli i leihau'r effaith ar yr amgylchedd gymaint ag y bo modd.
- Adolygu: dysgu o brofiad; darparu negeseuon allweddol i'r rheiny yr effeithiwyd arnynt; adolygu gweithdrefnau a chynlluniau yn ôl y gofyn a mabwysiadu gwell ffyrdd o weithio

7. Mae'r Strategaeth, y Cynllun Gweithredu a'r dull ASG wedi cael eu datblygu gyda chyfraniad gan y Grŵp Rheoli Digwyddiadau Strategol, a gadeiriwyd gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Cenedlaethol ac yn cynnwys y ddau Gyfarwyddwr Gweithredol ac uwch aelodau o'r staff, grŵp gorchwyl Agile, yr adolygiadau effeithlonrwydd a thrawsnewid Digwyddiadau ac Argyfyngau, cyfraniad gan fwy na 60 o arbenigwyr technegol ledled y sefydliad ac ymgynghori â phartneriaid allanol allweddol ym maes rheoli digwyddiadau. Mae Grŵp Cymunedau'r Bwrdd hefyd wedi adolygu a chyfrannu at y gwaith o'i llunio.

8. Y Strategaeth yw*'r* offeryn sylfaenol i sicrhau y trawsnewidir y ddarpariaeth rheoli digwyddiadau. Wrth ei datblygu nodwyd bod angen i bron pob agwedd ar y rôl ledled y busnes newid yn ystod cyfnod trawsnewid y ddwy flynedd nesaf. O'r herwydd mae llawer o'r camau yn y Cynllun Gweithredu'n ymwneud ag ailgynllunio elfennau sylfaenol y cylch rheoli digwyddiadau - yr hyn yr ydym yn ei ddisgrifio fel 'digwyddiadau' a'r ffordd yr ydym yn paratoi ar eu cyfer, yn eu hatal, yn ymateb iddynt ac yn dysgu ohonynt - yn hytrach na gweithredu'r dulliau presennol.

Y Camau Nesaf

9. Os rhoddir cymeradwyaeth i'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu a Chynllun ASG cysylltiedig, byddwn:

- Yn sicrhau bod cydweithwyr ledled CNC, a rhanddeiliaid allanol, yn ymwybodol o'i statws a'i chynnwys
- Yn gweithio gyda chydweithwyr ym mhob Cyfarwyddiaeth i hwyluso cynnwys y camau gweithredu priodol yng Nghynlluniau Cyflawni'r Cyfarwyddiaethau
- Yn defnyddio dull ASG wrth fonitro'r ffordd y gweithredir y Cynllun
- Yn gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu ein gofynion o ran data a thystiolaeth
- Yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd bob blwyddyn ar ei chynnydd a rhoi diweddariad ddwywaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Ansawdd yn ei rôl goruchwylio.

Risgiau

10. Os rhoddir cymeradwyaeth yna, yng ngoleuni'r lleihad yn ein hadnoddau, bydd angen i CNC sicrhau y bydd y gwaith o ail-alinio ein gwaith cyflawni'n cael ei wneud mewn ffordd gyson a chydlynol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, gan sicrhau y caiff yr adnoddau eu canolbwyntio lle mae eu hangen fwyaf. Bydd peidio â gwneud hynny'n creu risg cam-alinio'r ffordd y defnyddir ein hadnoddau a'r bobl a'r ardaloedd hynny a allai fanteisio fwyaf ar waith rheoli digwyddiadau integredig.

11. Bydd y gwaith o wireddu'r Strategaeth yn dibynnu ar gyfraniad ar gyfer llawer o'i chamau gan yr arbenigwyr technegol perthnasol ledled y busnes, gan weithio gyda'r adnodd cyfwerth ag un swydd amser llawn wrth gydgysylltu'r gwaith gwireddu hwnnw. Bydd angen i hyn ganolbwyntio'n benodol yn y flwyddyn neu ddwy flynedd gyntaf er mwyn

cyflawni rôl wedi'i hailgynllunio a mwy effeithiol sy'n sicrhau arbedion sylweddol o ddechrau cyfnod pum mlynedd y Cynllun.

12. Ymysg y cyhoedd a'n partneriaid mae llawer o ymwybyddiaeth a disgwyliad eisoes o rôl CNC ym maes rheoli digwyddiadau. Bydd angen i'r gwaith o gynllunio a chyflawni ein rôl ail-ddiffiniedig, sydd â ffocws newydd, gael ei reoli a'i gyfleu'n ofalus er mwyn inni sicrhau eu cefnogaeth barhaus. Bydd ein gwaith trawsffiniol hefyd yn cael ei gynnwys yn ein dull strategol gan fod angen inni fapio a rheoli unrhyw wahaniaethau canlyniadol i'n hymateb ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Goblygiadau ariannol

13. Mae ein gwasanaeth yn cael ei ariannu gan gymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru ac mae angen iddo ganolbwyntio ar roi gwerth effeithlon ac effeithiol. Mae angen inni gynnal ein gwaith rheoli digwyddiadau wrth inni ei ailgynllunio ar adeg pan mae adnoddau'n lleihau, a bydd hyn yn galw am gynllunio gofalus ledled y Cyfarwyddiaethau. Mae ein gwaith creiddiol wedi'i wasgaru ar draws y busnes ond wedi'i ganoli yn y Cyfarwyddiaethau Gweithredol a Gwasanaethau Cenedlaethol. Amcangyfrifir mai £4 miliwn y flwyddyn yw gwerth yr holl wariant ar hyd at 600 o aelodau o'r staff sy'n cyflawni amrywiaeth o rolau cynllunio ar gyfer digwyddiadau, ymateb iddynt ac ymadfer ohonynt. Mae llawer yn gwneud hynny fel un o elfennau eu swydd o ddydd i ddydd, ac yn eu hategu mae nifer fach o staff digwyddiadau amser llawn.

14. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys ymchwilio i ddull mwy effeithiol o adennill costau, gan adlewyrchu egwyddor "y llygrwr sy'n talu". Byddwn hefyd yn adolygu ein dulliau rheoleiddio, gorfodi a chyfathrebu gan ganolbwyntio ar atal digwyddiadau, sef y canlyniad mwyaf cost effeithiol. Fodd bynnag, er gwaethaf y pwysau ar adnoddau, os nad ydym yn cynnal rôl rheoli digwyddiadau effeithiol, gallai'r gost i gymunedau, yr economi ac amgylchedd Cymru gynyddu'n aruthrol, ac felly hefyd yr effaith ar enw da CNC.

Cyfathrebu

15. Bydd yr holl gyfathrebu â chydweithwyr, partneriaid a rhwydweithiau'n unol â'r argymhellion yn ein Strategaeth Cyfathrebu a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae cyhoedd gwybodus mewn lle gwell i atal digwyddiadau ac yn gallu gwrthsefyll digwyddiadau'n well.

16. Rydym wedi datblygu'r Strategaeth gan ddefnyddio cyfraniad gan staff y Gyfarwyddiaeth Cyfathrebu. Mae Adran 4 o'r Strategaeth a'r gweithgareddau yn y Cynllun Gweithredu'n nodi'r hyn a gaiff ei wneud i gyfleu a hyrwyddo'r Strategaeth hon.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

17. Byddwn yn mabwysiadu technoleg newydd lle bynnag y bo modd, er mwyn darparu ffordd effeithiol o rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau'n fewnol a gyda chymunedau a phartneriaid yn unol â'r gweithgareddau a nodir yn ein Strategaeth TGCh.

18. Mae cydweithio wedi digwydd eisoes gan ein bod wedi nodi cyfleoedd megis y strategaeth dyfeisiau i ddarparu technoleg symudol effeithiol newydd i'n gweithwyr digwyddiadau gweithredol, creu systemau a thrwy'r prosiectau pontio i sicrhau systemau integredig a chydnerth i ddarparu gwybodaeth a mynediad 24 awr y dydd, bob dydd o'r flwyddyn ledled ein sefydliad. Mae'r dechnoleg hon yn darparu sylfaen i sicrhau systemau ac offer cydnerth i gynorthwyo ag ymateb i ddigwyddiadau a chaniatáu ymadfer yn gyflym wedi trychineb a chynllunio parhad busnes.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

19. Mae rhwymedigaethau statudol ar CNC o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gwaith sgrinio cychwynnol ar y Strategaeth hon wedi cael ei wneud o dan Asesiad CNC o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae Cam 1 wedi cael ei gwblhau – gweler Atodiad 4.

Atodiadau

Atodiad 1 – Strategaeth Rheoli Digwyddiadau 2015-2020
Atodiad 2 – Cynllun Gweithredu Strategaeth Rheoli Digwyddiadau 2015-2020
Atodiad 3 – Cynllun Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau Strategaeth Rheoli Digwyddiadau 2015-2020
Atodiad 4 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Cam 1, Sgrinio Cychwynnol